

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWIYD AR NOS  
FAWRTH 10FED O FAI 2016 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Mike Denman (Cadeirydd), Deryl Roberts, Medwyn Jones, Siân Davies, Ian Hession, Clwyd Thomas, Dewi Roberts, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Brynle Lloyd a Gwyn Howatson.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 8fed o Fawrth 2016 a 19eg o Ebrill 2016 yn gywir a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd gwybodaeth fod y datblygiad yng ngardd 4 Bro Clwyd yn Rhewl wedi eu datrys bellach.

B. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl am ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar dipio anghyfreithiol rhwng Tan-yr-Ywen a Pentor ym Montuchel.

C. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Gwaith ar y coed yn 9 Ffordd Dinbych, Rhewl.
2. Estyniad i Glan Clywedog, Rhewl.
3. Estyniad i sied amaethyddol yn Y Gables, Llanychan.
4. Estyniad i Brŷn Clwyd, Rhewl.

D. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio am Fodurdy/Gweithdy a mynediad newydd yn Nhelypyn Smithy, Rhewl.

E. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y ddau rhodd y Cyngor i'r "Llanynys Community Sports Association" yn ddiweddar.

4. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN 2016/17.

Etholwyd Cyngorydd Brynle Lloyd yng Nghadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2016/17.

5. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN 2016/17.

Etholwyd Cyngorydd Dewi Roberts yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2016/17.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £11,268.00.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r precept am y flwyddyn 2016/17 - £2,656.00.

C. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2016 - £400.00.
2. PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2016 - £100.00.
3. SLCC am lawlyfr rheolau cyfrifon Cyngorau Lleol - £23.00.
4. Cennin Limited am gostau'r Wefan y Cyngor - £112.63.
5. AON UK Limited am yswiriant blynyddol y Cyngor - £766.52.
6. Harold Smith am gostau'r Archwiliwr Mewnol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 - £144.00.

D. Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian oddi wrth "Llanynys Community Sports Association" tuaf at gostau'r estyniad i'r Pafiliwn yn Rhewl. Penderfynwyd yr aelodau ar y rhodd o £2,000.00 (nid chymerodd y Cyngorwyr Mike Denman a Ian Hession rhan yn y drafodaeth ar bleidlais).

- E. Cytunwyd yr aelodau cyfrifon blynyddol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 ac arwyddwyd gan y Cadeirydd ar Glerc.
- F. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Un Llais Cymru am Dâl Aelodaeth 2016/17 y Cyngor.

#### 7. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A "Details of appearance, landscaping and scale of 10 dwellings submitted in accordance with condition number 1 of outline planning permission code number 24/2013/1553/PO (part approval of reserved matters)" ar dir yn Rhyd-y-Byll, Rhewl.

B. Estyniad i Brynafon, Rhewl.

C. Mynediad moduron newydd yn Nhelypyn Smithy, Rhewl.

#### 8. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwahoddiad i'r Cyngor fynychu'r cyfarfod Clwstwr Ardal Rhuthun Cyngor Sir Ddinbych ar nos Iau 19eg o Fai 2016 yn Neuadd y Sir, Rhuthun am 6.00 o'r gloch.

B. Derbyniwyd gwahoddiad am gynigion i'r Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ar Ddydd Sadwrn 1af o Hydref 2016.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

#### 9. UNRHYW FATER ARALL.

Nid chodwyd unrhyw fater arall.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 12fed o Orffennaf 2016 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.